17.12.20

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Darganfod pwy yw sêr y dyfodol yn Mastermind Plant Cymru

Mae un o gyfresi cwis mwyaf eiconig ac adnabyddus y byd wedi dychwelyd i gartrefi Cymru dros y gaeaf.

Ac mae'r gyfres yn cynnwys 3 rhifyn arbennig o **Mastermind Plant Cymru** dros yr ŵyl, lle bydd rhai o blant mwyaf disglair Cymru yn cystadlu am y teitl Pencampwr Mastermind Plant Cymru.

Bydd plant rhwng 9-11 oed o ysgolion ar draws Cymru yn herio'r gadair ddu enwog ac yn cystadlu am wobr ar ddiwedd pob rhaglen. Bydd **Mastermind Plant Cymru** yn darlledu ar S4C ar Ragfyr 29, 30 a 31 ac mae'n sicr o fod yn gystadleuaeth i'w chofio.

"Fe ro'th y plant agoriad llygad i fi - mor wybodus, mor frwdfrydig ac mor ddi-ofn. Nerfau o ddur!" meddai'r ddarlledwraig a'r newyddiadurwraig Betsan Powys. Hi yw'r cwis feistr yn holi cwestiynau i'r cystadleuwyr dewr sydd yn mentro i'r gadair ddu.

"Roedd eu pynciau arbenigol nhw'n hynod o amrywiol – o gysawd yr haul i gadwyni mynyddoedd y byd, o ryfel Troea i brifddinasoedd Ewrop ac o hanes yr RNLI i Dr Who."

Ond tybed beth fyddai pwnc arbenigol Betsan pe byddai hi yn y gadair?

"Byddai'n rhaid i chi fy nhynnu i gerfydd fy ngwallt i eistedd yn y gadair fawr ddu, ond dwi'n meddwl mai fy mhwnc arbenigol i fyddai nofelau John Irving - awdur Americanaidd. Fe wnes i Almaeneg yn y coleg ac fe fues i'n byw yn Vienna ac roedd ganddo lyfr wedi ei osod yn y ddinas sef 'Setting Free the Bears' ac ers hynny dwi wedi darllen nifer o'i nofelau a dwi'n ei ddilyn fel awdur. Byddai'n bleser cael esgus i fynd nôl i astudio ei waith."

Mae Betsan yn siŵr fydd y plant yn creu argraff fawr iawn ar bawb adref, wrth iddyn nhw serennu yn y gystadleuaeth:

"Dyw hi'n bendant ddim yn wir bod plant i gyd yn sownd i'r sgrîn ac yn llai chwilfrydig nac y buon nhw.

"Fe fydd pawb yn llawn edmygedd o weld y plant yma yn rhoi eu gorau, sgen i ddim amheuaeth."

**Mastermind Plant Cymru**
**29, 30 a 31 Rhagfyr, 7.00**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar gael**

**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad BBC Studios Adloniant a Cherddoriaeth ar gyfer S4C**

17.12.20

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Discovering the stars of the future on Mastermind Plant Cymru

One of the world's most iconic and well-known quiz series has returned to Welsh homes this winter.

And the series features three special editions of **Mastermind Plant Cymru** over the festive season, where some of Wales's brightest children will compete for the title of Mastermind Plant Cymru Champion.

9-11-year olds from different schools across Wales will take their place in the famous black chair and compete for a prize at the end of each programme. **Mastermind Plant Cymru** will be on S4C on December 29, 30 and 31 and promises to be a competition to remember.

"It was an eye-opener – the children were so informed, so enthusiastic and so fearless. Nerves of steel!," said broadcaster and journalist Betsan Powys, who is back as the quizmaster asking questions to those brave competitors who venture into the black chair.

"Their specialist subjects were extremely diverse – from the solar system to the world's mountain ranges, the Trojan war to the capital cities of Europe, and from the history of the RNLI to Doctor Who."

But what would be Betsan's expert subject if she were in the chair?

"You'd have to pull me by my hair to sit in the big black chair, but I think my specialist subject would be the novels of John Irving - an American author. I did German in college and lived in Vienna – he has a book set in the city called 'Setting Free the Bears' and since then I've read a number of his novels and I follow him as a writer. It would be a pleasure to have an excuse to go back to study his work."

Betsan is sure the children will make a big impression on everyone at home, as they shine in the competition:

"It's certainly not true that all children are stuck to their screens and less curious than they used to be.

"Everyone who sees these children will be full of admiration for them, no doubt."

**Mastermind Plant Cymru**
**29, 30 and 31 December, 7.00**
**Welsh and English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A BBC Studios Entertainment & Music production for S4C**